

Gwers 43 – Newyddion da Iesu

Nodiadau Cefndir i'r Athro

Actau 2:1–37

Gŵyl undydd oedd y Pentecost a ddenai Iddewon o bob rhan o'r byd Iddewig. Mewn ufudd-dod i'w Harglwydd, arhosodd y disgyblion a dilynwyr eraill Iesu yn Jerwsalem ac yr oeddent yn cyfarfod mewn goruwch ystafell, o bosib' yr ystafell lle y bwytaodd Iesu wledd y Pasg gyda'i ddisgyblion cyn ei arestio a'i groeshoelio. 'Yr oedd rhain oll yn dyfalbarhau yn unfryd mewn gweddi' (Act. 1:14), rhyw gant ac ugain ohonynt. Ni fyddai'n syndod pe baent wedi troi cefn ar y ddinas oherwydd eu bod yn ofni'r awdurdodau crefyddol a fyddai'n debygol o chwilio am gefnogwyr Iesu, ond aros a wnaethant. Oherwydd bod un o'r deuddeg, Jwdas Iscariot, wedi marw penderfynwyd ethol un o'u plith i gymryd ei le a disgynnodd y coelbren ar Mathias, 'chafodd ef ei restru gyda'r un apostol ar ddeg' (Act. 1:26). Sylwer mai apostolion ydynt o hyn ymlaen; ystyr 'disgybl' yw un sy'n dilyn neu'n dysgu tra mai ystyr 'apostol' yw 'un wedi ei anfon, gyda chomisiwn arbennig y sawl a'i hanfonodd'.


Bu'r Ysbryd Glân yn weithredol cyn y Pentecost hwn. Yr oedd yn weithredol yn y Creu, '....ac ysbryd Duw yn ymsymud ar wyneb y dyfroedd' (Genesis 1:2). Disgynnodd ysbryd yr Arglwydd ar Gideon (Barn. 6:34), ac ar Dafydd (1 Sam. 16:13). Yr oedd yr Ysbryd yn amlwg ym mywyd a gweinidogaeth Iesu (Luc 4:1, 14). Yn awr, fodd bynnag, nid yn unig y disgynnai'r Ysbryd ar y bobl, byddai'n byw ynddynt, ei bresenoldeb yn barhaol ac nid yn ysbeidiol, 'Ac fe ofynnaf finnau i'm Tad, ac fe rydd i chwi Eiriolwr arall i fod gyda chwi am byth' (Ioan 14:16).

Y mae Luc yn disgrifio disgyniad yr Ysbryd 'fel gwynt grymus yn rhuthro' (Act. 2:2) yn llenwi'r holl dŷ lle'r oeddent yn eistedd. Yn yr Hebraeg a'r Groeg, yr un gair yw ysbryd a gwynt; ni theimlwyd mo'r gwynt ond clywyd ei sŵn. Arwydd yw'r gwynt o bresenoldeb Duw yn ei Ysbryd. Ymrannodd yr Ysbryd ar y bobl 'ac eistedd un ar bob un ohonynt' (Act. 2:3). Ychydig cyn bedyddio Iesu yn afon lорddonen dywedodd Ioan am Iesu, 'Yr wyf fi yn eich bedyddio â dŵr ond y mae un cryfach na mi yn dod. Bydd ef yn eich bedyddio â'r Ysbryd Glân ac â thân' (Luc 3:16).

Ar y Pentecost cyflawnwyd proffwydoliaeth Joel, 'Ar ôl hyn tywalltaf fy ysbryd ar bawb; bydd eich meibion a'ch merched yn proffwydo, bydd eich hynafgwyr yn gweld breuddwydion, a'ch gŵyr ifainc yn cael gweledigaethau' (Joel 2:28).

Pentecost

Enw'r Testament Newydd ar Ŵyl yr Wythnosau neu Gŵyl y Cynhaeaf (Exodus 23:16). Yr oedd yn un o dair gŵyl pan ddisgwyliid i bob gwryw 'ymddangos o flaen yr Arglwydd' (Exodus 23:17). Ystyr pentecost yw 'hanner canfed', oherwydd cynhelir yr Ŵyl hanner can niwrnod ar ôl Gŵyl y Blaenffrwyth. Ar y Pentecost, yr oedd dilynwyr Iesu wedi ymgasglu ynghyd, a llanwyd hwy oll â'r Ysbryd Glân.



Mae Pedr yn pregethu am Iesu i dyrfa o bobl yn Jerwsalem.
Fedri di ddod o hyd i gamgymeriadau bwriadol yr arlunydd?

Darlhen Actau 5:29 i ganfod beth ddywedodd Pedr pan ddywedodd rhywun wrtho am roi'r gorau i bregethu.

Gwers 43 – Newyddion da am Iesu

Mae Iesu'n Fyw | Actau 1:1–14

Beibl Gweithgaredd y Plant / Lleiaf tud. 180



Gwers 43

Newyddion da Iesu

BEIBL GWEITHGAREDD Y PLANT DAN /DROS 7 oed

Newyddion da am Iesu tud 180

BEIBL LLIW STORI DUW

Nerth yr Ysbryd Glân tud 278

BEIBL BACH STORI DUW

Duw'n anfon help tud 326

BEIBL NEWYDD Y STORIWR

Yr Ysbryd Glân tud 146

BEIBL LLIW Y PLANT

Tafodau o dân tud 284

BEIBL NEWYDD Y PLANT

Yn gynnwys un bore tud 221

BEIBL BACH I BLANT

Yr Helpwr arbennig tud 246

Y BEIBL I BLANT MEWN 365 STORIÏAU

Ysbryd Duw yn dod tud 384

BEIBL LLIW Y TEULU

Yr Ysbryd Glân yn dod tud 184

I Ddechrau

Trawsnewid!

Bydd angen eitemau sy'n 'trawsnewid', e.e. oren a sudd; darn o bren a phapur; gwlan cotwm ac eitem o ddillad cotwm. Teganau sy'n 'trawsffurfio' – dewisol.

Rhowch yr eitemau ar hambwrdd o flaen y plant wedi'u cymysgu. Gofynnwch i'r plant pa rai sy'n gysylltiedig? Gallwch rannu'r plant yn dimoedd gyda phapur a phensel i gofnodi'r atebion yn ddirgel neu gall y plant alw allan eu syniadau.

Gofynnwch a allant feddwl am bethau eraill sy'n cael eu 'trawsnewid.'

Esboniwch y byddwn yn clywed am hanes ffrindiau Iesu yn cael eu trawsnewid yn ein hanes gwir o'r Beibl heddiw.

Mewn i'r bocs

Bydd angen bocs eithaf mawr arnoch.

Rhannwch y plant yn dimoedd, wedi llacio'u hesgidiau. Nod y gêm yw bod y plant cael cymaint o'u hesgidiau â phosibl i mewn i'r bocs o fewn munud – trwy eu cicio'n unig! Gosodwch y plant i sefyll mewn llinell tua 4 metr o'r bocs a chymryd tro i 'gicio' eu hesgidiau tuag at y bocs.

Yr Hanes

Darllenwch yr hanes gan ddefnyddio Beibl Gweithgaredd y Plant neu un o'r llyfrau yn y Rhestr Adnoddau. Wedyn, defnyddiwch y syniad canlynol i atgyfnerthu a chymhwyso'r stori.

Gosodwch y plant i sefyll mewn rhes yng nghanol yr ystafell. Darllenwch y datganiadau canlynol a gwahodd y plant i redeg i ochr dde'r ystafell os ydynt yn credu bod y datganiad yn 'wir' neu i'r ochr chwith os ydynt yn credu bod y datganiad yn 'gau'. Neu, gallwch rannu'r plant yn ddau dîm, gydag un o bob tîm yn ymateb i un datganiad ar y tro. Yr olaf i gyrraedd yr ochr cywir sydd allan o'r cwis. Y tîm sydd â'r nifer fwyaf o aelodau dal yn y cwis ar y diwedd sy'n ennill.

1. Addawodd Iesu i ddanfôn yr Ysbryd Glân at ei ffrindiau. Gwir
2. Byddai'r Ysbryd Glân yn achosi'r disgyblion i roi'r gallu iddynt i hedfan. Gau.
3. Clywodd ffrindiau Iesu sŵn glaw pan ddaeth yr Ysbryd Glân. Gau.
4. Ar ôl derbyn yr Ysbryd Glân roedd ffrindiau Iesu'n gallu siarad ieithoedd gwahanol. Gwir.
5. Aeth ffrindiau Iesu i Jerwsalem i siopa. Gau.
6. Pan glywodd pobl y neges am Iesu dyma nhw'n dweud wrth yr heddlu. Gau.

Cewch ychwanegu datganiadau o'r hanesion eraill os dymunwch.

Cymhwys

Cafodd Pedr a'r disgyblion eraill eu trawsnewid gan nerth yr Ysbryd Glân.

Eglurwch wrth y plant fod gwahanol fathau o bŵer /nerth yn bodoli:

Nerth yr aer: gofynnwch i un ohonynt i chwythu darn o bapur ar hyd yr ystafell i gyflwyno nerth yr aer.

Nerth trydanol: dangoswch yr eitem drydanol a thrafodwch yr holl bethau eraill sydd gennym sy'n dibynnu ar nerth trydanol.

Nerth corfforol: gofynnwch i un o'r plant i godi'r pwysau, neu gael cystadleuaeth reslo braich.

Nerth awdurdod: gorchmynnwch y plant i godi/eistedd/codi/eistedd, i egluro'r syniad bod gan rai awdurdod - pŵer - drosom.

Roedd Iesu wedi rhoi addewid i'r disgyblion cyn iddo fynd yn ôl i'r nef at Dduw, ei dad. Addawodd y byddent yn derbyn nerth gan yr Ysbryd Glân, er mwyn iddynt gyflawni'r swydd bwysig roedd wedi ei rhoi iddynt. Darllenwch Actau 1:8 gyda'r plant. Dywedodd Iesu ei fod am i'r disgyblion fod yn dystion iddo Ef a byddai'r Ysbryd Glân yn rhoi nerth iddynt.

Trafodwch ystyr y gair 'tystion' gyda'r plant. Yn syml, tyst yw rhywun sydd wedi gweld rhywbeth. Roedd y disgyblion wedi bod gyda'r Iesu a gweld yr hyn a ddigwyddodd iddo, a nawr roedd angen iddynt ddechrau dweud wrth bobl eraill am bopeth yr oeddent wedi'i weld a chlywed, fel y byddai pobl eraill yn dod i garu Iesu. Ond, roedd Iesu'n gwybod y byddai hyn yn waith anodd iawn. Felly, danfonodd Duw yr Ysbryd Glân i'w cynorthwyo yn y gwaith.

Adnod i'w dysgu

'Dydy Duw ddim wedi rhoi ei Ysbryd i ni fod yn llwfr, ond i'n gwneud ni'n gryf, yn llawn cariad ac yn gyfrifol.' (2 Timotheus 1:7)

Bydd angen balŵn ar bob tîm a beiro.

Rhannwch y plant yn dimoedd gydag un balŵn. Mae un person o'r tîm yn cario'r falŵn rhwng ei g/choesau atoch er mwyn i chi ysgrifennu gair, neu gymal, o'r adnod arno, cyn dychwelyd at y tîm a phasio'r falŵn i'r aelod nesaf. Ar ôl casglu'r adnod i gyd ar y falŵn, mae'r tîm yn dysgu'r adnod gyda'i gilydd. Rhowch gyfle i bob tîm adrodd yr adnod yn ôl i chi ac os dymunwch, rhowch wobr i'r tîm gorau.

Cofiwch esbonio'r geiriau 'llwfr' a 'chyfrifol.' Trafodwch gyda'r plant sut oedd dilynwyr Iesu yn 'llwfr' ar ddechrau'r hanes ond yn 'gryf,' yn 'llawn cariad' ac yn gyfrifol ar ôl iddynt dderbyn yr Ysbryd Glân ar ddydd y Pentecost.

Gwedd

Dros bobl eich ardal

Tynnwch lun fap syml o'ch ardal/tref/ pentref/ dinas, neu lawr lwytho un o'r We.

Treuliwch amser yn gweddio dros y trigolion a dros y bobl yn eich ardal sy'n ceisio rhannu'r newyddion da yno. Cofiwch weddio dros eich hun hefyd, am nerth yr Ysbryd Glân i'ch cynorthwyo i siarad gyda ffrindiau a theulu am gariad yr Arglwydd Iesu.

Cân

'Nid yw Duw am i ni fod yn wan' (Tyrd i Ddathlu, rhif 19).

Adnoddau Ychwanegol

Crefft

Llyfr Crefftau Stori Duw i blant dan 11 oed Cyhoeddi'r newyddion da ym mhob man tud. 121

Gwerslyfrau Golau ar y Gair

Pentecost: Newyddion Da Iawn

Taflenni gwefan amserbeibl.org

Cyfres A - Cristnogion Cynnar

Cyfres DVD Stori Duw

Stori 49: Newyddion Da Iawn

Cyfres Powerpoints Beibl Bach i Blant

Stori 60: Yr Helpwr Arbennig

Cwis a Chwilair

Llyfr Cwis Cynta i Ateb tud 354

Llyfrau Stori

Tedi Twt: Y Diwrnod Gwyntog

